AC2010(1) Papur 5b Atodiad A

Ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r ystâd yn cynnwys yr adeiladau canlynol:

1. Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

| | |
|---|---|
| Deiliadaeth | Lesddaliad |
| Cyfnod | 25 mlynedd |
| Arwynebedd | 11,648 m sgwâr |
| Rhent | £1,775,000 |
| Rhent (y droedfedd sgwâr) | £14.15 |

Hwn yw prif adeilad swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd, ac adeiladwyd ef ym 1990. Mae'n adeilad siâp U ag iddo chwe llawr â maes parcio tanddaearol a maes parcio ar y ddaear.

Mae'r adeilad yn gartref i'r staff a'r cyfleusterau a ganlyn:

- Swyddfeydd unigol ar gyfer 60 Aelod Cynulliad a 2-3 staff cymorth i bob Aelod (oddeutu 200 i gyd):

  2[il] lawr 1,527.25 m sgwâr
  3[ydd] llawr. 1,195.63 m sgwâr

- 330 o staff y Cynulliad:

  Llawr gwaelod 483.56 m sgwâr
  Llawr 1[af] 944.09 m sgwâr
  3[ydd] llawr 1,012.49 m sgwâr
  4[ydd] llawr 1,046.78 m sgwâr

- 50 o staff contractwyr (TGaCh, cynnal a chadw, arlwyo a staff darlledu mewnol)

- Swyddfeydd wedi'u his-osod (1,792 m sgwâr) ar gyfer 150 o staff Llywodraeth Cymru (Gweinidogion a'u staff cymorth, cynghorwyr arbenigol ac ati).

- Man wedi'i is-osod i staff y cyfryngau a'r wasg

- Dau fwyty

- Ystafelloedd cyfarfod a chynadledda

- Ystafelloedd Addysg ar gyfer rhaglen yr ysgolion sy'n ymweld, sy'n cynnwys siambr ddadlau ac ystafell ddosbarth

- Derbynfa a lle i gynnal digwyddiadau

2. Y Senedd, Bae Caerdydd

Deiliadaeth   Lesddaliad
Cyfnod   150 o flynyddoedd
Arwynebedd 3,710m sgwâr
Rhent   N/A

Hwn yw ein hadeilad nodedig ac eiconig a gynlluniwyd gan Richard Rogers Partnership, ac a agorwyd ym mis Mawrth 2006. Y Senedd yw'r prif adeilad i'r cyhoedd gael mynediad iddo a'r ganolfan ar gyfer busnes y Cynulliad.

Mae'r adeilad yn cynnwys y cyfleusterau a ganlyn:

- Siambr ddadlau ac oriel gyhoeddus
- Dwy ystafell bwyllgor ac orielau cyhoeddus
- Deg ystafell gyfarfod i gefnogi busnes y Cynulliad
- Derbynfa a gofod i'r cyhoedd
- Lle i gynnal digwyddiadau
- Caffi cyhoeddus
- Siop
- Parlwr Te'r Aelodau
- Swyddfeydd ar gyfer staff y Cynulliad sy'n trefnu gwaith ar yr adeilad a digwyddiadau.

Mae dwy bont gysylltu rhwng yr adeilad â Thŷ Hywel.

Yr unig staff sydd wedi'u lleoli'n barhaol yn yr adeilad yw pedwar staff rheoli cyfleusterau a staff technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae staff Diogelwch, staff y dderbynfa a staff gwasanaethau i ymwelwyr yn gweithio ar rota i wneud dyletswyddau diogelwch, i oruchwylio yn y dderbynfa ac i arwain teithiau i ymwelwyr. Mae'r mwyafrif o staff y Cynulliad wedi'u lleoli yn Nhŷ Hywel, ond yn ôl natur eu gwaith bydd rhai yn gweithio rhan o'r wythnos yn y Senedd i gynorthwyo yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor ac mewn digwyddiadau a chyfarfodydd eraill.

3. Y Pierhead, Bae Caerdydd

Deiliadaeth Lesddaliad
Cyfnod   150 o flynyddoedd
Arwynebedd 1,116 m sgwâr
Rhent   N/A

Hwn yw ein hadeilad Fictorianaidd Rhestredig Gradd A 1.

**Cwblhawyd prosiect yn ddiweddar i ddatblygu cyn fannau cyhoeddus y Pierhead yn gyfleusterau cynadledda, digwyddiadau, arddangosfeydd, a dadleuon amlbwrpas. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys gosod cynllun dehongli yn yr adeilad a fydd yn esbonio hanes yr adeilad, hanes Bae Caerdydd a Chymru, yn rhoi eglurhad am y datblygiad ac am waith y Cynulliad. Mae'r adeilad hefyd yn cynnwys nifer o swyddfeydd bach.**

## 4. Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn

| | |
|---|---|
| **Deiliadaeth** | **Lesddaliad** |
| **Cyfnod** | **10 mlynedd** |
| **Arwynebedd** | **230 m sgwâr** |
| **Rhent** | **£35,851** |
| **Rhent (y droedfedd sgwâr)** | **£10.00** |

**Mae'r adeilad yn cynnwys un hanner llawr gwaelod adeilad dau lawr. Adeiladwyd ef yn 2003. Mae'r gofod yn darparu swyddfeydd i hyd at 14 o staff ac ystafell gynadledda.**

**Mae staff sy'n gweithio yn y swyddfa'n gofalu am linell ffôn gwybodaeth, llinell archebu a phrif switsfwrdd y Cynulliad. Hefyd mae yno weithfan ar gael i staff rhanbarthol a staff yr adran addysg sy'n gweithio ar hyd a lled gogledd Cymru.**


## ATODIAD B


## Sut mae Tŷ Hywel wedi'i rannu


| Defnydd /Math o ofod | Lleoliad | Gofod $m^2$ |
|---|---|---|
| Ystafelloedd cyfarfod a chynadledda | Llawr gwaelod a'r Llawr Cyntaf | 446 |
| Siambr Hywel | Llawr gwaelod | 507 |
| Derbynfa / y Neuadd | Llawr gwaelod | 326 |
| Bwyty | Llawr 1af | 191 |
| Parlwr Te a Bwyty'r Aelodau | Llawr 1af | 234 |
| Cegin | Llawr 1af | 415 |
| Swyddfa Llywodraeth Cymru | 5ed Llawr a<br>2il Lawr, bloc A | 1,792 |
| BBC | 4ydd Llawr, bloc C | 359 |
| HTV | 4ydd Llawr, bloc C | 93 |
| Swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad | 2il Lawr, Bloc A a Bloc B<br>3ydd Llawr, Bloc B a Bloc C<br><br>*Gwagle safonol cyfartalog o 13.60 $m^2$ y person* | 2,722 |
| Staff y Cynulliad | Llawr gwaelod, Bloc C<br>Llawr 1af Bloc A<br>3yddLlawr, Bloc A<br>4ydd Llawr, bloc B<br><br>*Gwagle safonol cyfartalog o 10.5 $m^2$ y person* | 3,485 |
| Staff contractwyr (Siemens, Integral, Barcud Derwen, yr Heddlu) | Llawr 1af Bloc A<br>Llawr gwaelod, bloc C<br>Llawr gwaelod, bloc A<br>Llawr gwaelod, bloc C | 360 |

**ATODIAD c**

**Canlyniadau Arolwg Defnydd – 2009**




Heb fod wrth ddesg
Nifer y staff
35
30
25
20
15
10
5
0
LLAWR C
1A
3A
4A
4B
Llawr
YN YSTOD Y TYMOR
YN YSTOD TORIAD

ATODIAD D

## Dadansoddi Cerdyn Sgorio Cytbwys

| | Lle ac Ansawdd y gofod | Cost | Cysylltedd â chwsmeriaid | Cymdeithasol/ Economaidd | Cynaliadwyedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Reolwyr** | • Hwyluso gofynion sefydliadol<br>• Gwerth ailgylchu<br>• Brandio – yn cyflwyno'r neges (neu'r ddelwedd) gywir | • Darpariaeth gystadleuol i gyrraedd targedau o fewn y gyllideb | • Diwallu anghenion cymunedau<br>• Cysylltiad â'r gymuned a chwsmeriaid a chefnogaeth iddynt | • Disgwyliadau cyffredinol gan y gwasanaeth o'r asedau sydd ar gael<br>• Gweithio â'r gymuned<br>• Gweithio â phartneriaid | • Adrodd am gydymffurfio statudol<br>• Cyrraedd targedau cynaliadwyedd allanol a chorfforaethol |
| **Rheolwyr Gweithredol** | • Cyfleusterau digonol a staff o'r safon uchaf<br>• Detholiad o wasanaethau<br>• Addasrwydd i'r pwrpas | • Defnyddio adnoddau ariannol | • Lleoliad<br>• Gwasanaeth i gwsmeriaid a chyswllt â hwy | • Effaith ar les y gymuned a ddaw o'r gwasanaeth(au) dan sylw | • Cydymffurfio â Deddfwriaeth Amgylcheddol<br>• Arloesol ac yn corffori â chynlluniau gweithredol |
| **Tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau** | • Maint yr asedau<br>• Ystwythder i ddiwallu anghenion cyfnewidiol<br>• Pa mor ddibynadwy yw'r seilwaith | • Cost cynnal a meddiannaeth<br>• Gwariant cyfalaf | • Gofod gweddus i anghenion cwsmeriaid<br>• Gwasanaethau adeiladau priodol ar y safle | • Bodlonrwydd y cwsmer â'r adeiladau<br>• Bodlonrwydd y defnyddwyr â'r adeiladau<br>• | • |
| **Staff** | • Ansawdd ac effeithiolrwydd ar gyfer gweithio<br>• Bodlonrwydd swydd<br>• Rheolaeth briodol o'r cyfleusterau<br>• Lleoliad | • Hygyrchedd ac agosrwydd (costau'r siwrnai i'r gwaith) | • Rhwyddineb darparu'r gwasanaethau cywir | • Esmwythder, diogelwch, gostwng straen<br>• Amgylchedd glân a safonol | • |

## ATODIAD E

**Costau cynnal blynyddol ar gyfer Ystâd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2008-2009**

| Contract | Tŷ Hywel | Senedd | Y Pierhead | Rhodfa'r Tywysog | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhent | £2,069,559.23 | | | £62,224.29 | | £2,131,783.52 |
| Ardrethi | £1,165,000.50 | | | £22,251.50 | | £1,187,252.00 |
| Gwastraff Glanweithiol | £621.33 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | | £621.33 |
| Glanhau | £292,530.01 | | £0.00 | £9,668.00 | | £302,198.01 |
| Sbwriel | £11,553.32 | | | £369.20 | | £11,922.52 |
| Glanhau ffenestri | £50,506.80 | | | | | £50,506.80 |
| Nwy | £69,298.18 | £12,054.91 | £5,004.04 | £2,203.86 | | £88,560.99 |
| Dwr | £17,558.50 | £1,429.63 | £3,277.74 | £1,085.60 | | £23,351.47 |
| Trydan | £308,255.14 | £81,699.01 | £15,878.76 | £16,228.05 | | £422,060.96 |
| Cynnal a chadw a gynlluniwyd | £276,815.97 | £235,845.24 | £40,100.40 | £6,092.76 | | £558,854.37 |
| Cynnal a chadw ymatebol | £329,577.85 | £117,031.26 | £43,577.36 | £8,552.47 | | £498,738.94 |
| Sglodion coed | £17,807.76 | | | | | |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | £4,609,084.59 | £448,060.05 | £107,838.30 | £128,675.73 | | £5,293,658.67 |

* = Mae gan Tŷ Hywel, y Senedd a'r Pierhead asesiad/cost gyfunol